# Enwebu Partner Dibynnol ar gyfer Pensiwn Goroeswr

Mae’r budd-daliadau sy'n daladwy ar farwolaeth aelod o'r Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2006 / 2015 (CPH) yn cynnwys pensiynau i blant, ac ar gyfer priod neu bartner sifil sy'n goroesi. Ond, mae'r Cynllun hefyd yn darparu budd-daliadau, yn debyg i'r rhai ar gyfer priod neu bartner sifil sy'n goroesi, i bartner nad yw'r swyddog heddlu wedi ei briodi neu ffurfio partneriaeth sifil efo nhw, ond lle:

- mae enwebiad cymwys a datganiad ar y cyd wedi cael ei wneud; ac

- mae Heddlu Dyfed Powys (HDP) yn fodlon, ar ddyddiad marwolaeth y swyddog heddlu, bod y partner enwebedig yn byw gyda’r swyddog heddlu mewn perthynas unigryw, ymroddedig, tymor hir (fel arfer am o leiaf ddwy flynedd) a bod yr amodau ar gyfer gwneud enwebiad a datganiad ar y cyd wedi cael eu bodloni.

Yr amodau ar gyfer enwebu a datganiad ar y cyd yw:

- rhaid bod y swyddog heddlu â’r partner enwebedig yn rhydd i briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil yn y Deyrnas Unedig); ac

- naill ai mae'n rhaid i'r partner enwebedig fod yn ddibynnol yn ariannol ar y swyddog heddlu neu mae’r swyddog heddlu ac bartner enwebedig yn gyd-ddibynnol yn ariannol.

Os ydych chi a / neu eich partner yn briod ar hyn o bryd neu os oes gennych bartner sifil, yna ni all y math hwn o enwebiad cael ei wneud. Ar eich marwolaeth, byddai eich priod neu bartner sifil yn derbyn budd-dal goroeswr yn awtomatig o dan ddarpariaethau CPH. Dyma fyddai'r achos hyd nes bydd y briodas neu'r bartneriaeth sifil yn dirymu neu eu diddymu. Nes yr amser hwnnw, NI byddech yn gallu enwebu ar gyfer eich partner.

Nid oes unrhyw ofyniad bod chi a'ch partner wedi bod mewn perthynas 'unigryw, ymrwymedig, tymor hir' ar y ddyddiad a gwneir eich enwebiad. Ni fyddai hyn yn gorfod gael ei brofi tan ddyddiad y farwolaeth. Ar y pryd, byddai'n rhaid i HDP fod yn fodlon bod y berthynas wedi bodoli am o leiaf ddwy flynedd hyd at y dyddiad hwnnw. Efallai y bydd HDP yn hepgor y gofyniad o ddwy flynedd, yn ôl eu disgresiwn.

Nid yw byth yn hawdd i ofyn am wybodaeth pan fydd person wedi marw, ond bydd rhaid i HDP gwneud hyn i benderfynu’r hawl am fudd-daliadau. Dylech chi a'ch partner fod yn ymwybodol y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, efallai y bydd HDP yn gofyn am gadarnhad eich bod yn byw mewn cartref a rennir, gyda gwariant rhannu cartref. Neu efallai y bydd eich partner yn gallu dangos bod gennych gyfrif banc neu forgais ar y cyd. Efallai y bydd chi a'ch partner wedi gwneud Ewyllys, neu wedi cymryd allan yswiriant bywyd, gan enwi ei gilydd fel y prif buddiolwr. Math hyn o dystiolaeth y bydd HDP yn gofyn am. Bydd hawl i apelio os na fydd HDP yn penderfynu talu’r pensiwn i'ch partner a bod eich partner yn credu bod ganddynt hawl.

Os ydych yn dymuno enwebu eich partner ar gyfer budd-dal goroeswr, llenwch y ffurflen sydd ynghlwm. Dylai'r datganiad gael ei lofnodi gan chi a'ch partner a dylai gael ei dystio gan drydydd parti. Datgysylltwch y ffurflen o'r nodiadau hyn ac yna dychwelir at Heddlu Dyfed Powys.

Police Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

# Enwebu eich Partner Cyd-fyw

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen, defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU** i gwblhau y manylion a gofynnir amdani isod. Dylech chi a'ch partner enwebedig gwblhau'r datganiad. Yna, dylech dychwelyd y ffurflen yn ôl y cyfarwyddyd.

| **Eich Manylion Personol** | |
|---|---|
| Enw: | Dyddiad Geni: |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | Cyfeirnod y Cyflogres: |
| Cyflogwr: | |
| Cyfeiriad: | |

| **Manylion eich Partner Enwebedig** | |
|---|---|
| Rwyf yn dymuno enwebu fy mhartner a enwir isod i dderbyn pensiwn partner enwebedig o dan CPH. | |
| Enw: | Dyddiad Geni: |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | |
| Cyfeiriad: | |

| **Dewis Iaith** | | | | | (✓ y blwch priodol i nodi eich etholiad) |
|---|---|---|---|---|---|
| Fel aelod o CPH, hoffwn dderbyn **HOLL** ohebiaeth a ddaw yn y dyfodol yn: | | | | | |
| **CYMRAEG** | | **SAESNEG** | | **DDWYIEITHOG** | |

**NI ddylech ddibynnu ar yr enwebiad hon ar ben ei hun i roi hawl i bensiwn i'ch bartner. Ar eich marwolaeth, bydd angen i HDP fod yn fodlon bod eich perthynas yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer talu y pensiwn.**

## DATGANIAD

Rydym yn cadarnhau:

- rydym wedi byw gyda'i gilydd am o leiaf 2 flynedd ac yn ystod y cyfnod yma, mae ein materion ariannol wedi bod yn rhyngddibynnol (neu mae'r partner wedi bod yn ddibynnol yn ariannol ar y swyddog heddlu);
- ein bod mewn perthynas unigryw, ymrwymedig â'i gilydd ac rydym yn bwriadu parhau yn y berthynas hon am gyfnod amhenodol, ac rydym yn gyfrifol ar gyfer lles ei gilydd;
- nid ydym yn perthyn mewn ffordd a fyddai'n atal priodas neu bartneriaeth sifil;
- nid yw'r naill na'r llall yn briod â, neu mewn partneriaeth sifil gydag unrhyw un arall;
- nid yw'r naill na'r llall yn cael ei henwebu ar hyn o bryd fel partner i unrhyw un arall.

| | |
|---|---|
| **Llofnod y Swyddog Heddlu:** | **Dyddiad:** |
| **Llofnod eich Partner Cyd-fyw:** | **Dyddiad:** |